Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Adolygiad thematig marwolaethau plant mewn tân

## Y Rhaglen Adolygiad Marwolaethau Plant

www.publichealthwales.org/childdeathreview

# Cydnabyddiaeth

Dymuna'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant ddiolch i gydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru: Dr Jo McCarthy am ei rôl fel arweinydd yr adolygiad, Gillian Hopkins am ei rôl fel Swyddog Gwybodaeth a Catherine Floyd am ei rôl fel Cadeirydd y Panel. Diolch yn fawr iawn i Dr Bruce McKenzie a Dr Ciarán Humphreys am eu cyfraniadau wrth gynllunio'r adolygiad hwn. Hoffem hefyd ddiolch i aelodau'r panel thematig: Karen Jones, Dr Joanne Bowes a'r Athro Tom Potokar. Hefyd hoffem ddiolch i Dîm Dadansoddi'r Arsyllfa a Gwasanaeth Tystiolaeth yr Arsyllfa, yn enwedig Chukwudi Okolie, am yr adolygiad llenyddiaeth; pawb a ddarparodd wybodaeth i gefnogi'r adolygiad hwn; a'n cydweithwyr yn Adran Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru a gynorthwyodd gyda phrawfddarllen.

**1 CRYNODEB ........ 4**
**2 CYD-DESTUN ........ 6**
**3 METHODOLEG ........ 7**
3.1 Protocol ........ 7
3.2 Ffynonellau data ar gyfer triongli tystiolaeth ........ 7
3.3 Ffurfio cyfleoedd atal ........ 9
3.4 Adroddiadau, ymgysylltu a datblygu canfyddiadau'r adolygiad ........ 9
**4 CANFYDDIADAU ........ 10**
4.1 Beth wnaeth yr wybodaeth am farwolaethau/digwyddiadau unigol ei ddweud wrthym ni? ........ 10
4.2 Beth wnaeth y llenyddiaeth ei ddweud wrthym ni? ........ 11
4.3 Pa themâu a ddeilliodd o drafodaethau'r panel? ........ 15
**5 DIOGELWCH PERSONOL ........ 16**
5.1 Beth wnaeth yr wybodaeth am farwolaethau/digwyddiadau unigol ei ddweud wrthym ni? ........ 16
5.2 Beth wnaeth y llenyddiaeth ei ddweud wrthym ni? ........ 16
5.3 Pa wybodaeth a ddeilliodd o drafodaethau'r panel? ........ 16
5.4 Awgrymiadau'r Panel: Diogelwch personol ........ 17
**6 DIOGELWCH YN Y CARTREF ........ 18**
6.1 Beth wnaeth yr wybodaeth am farwolaethau/digwyddiadau unigol ei ddweud wrthym ni? ........ 18
6.2 Beth wnaeth y llenyddiaeth ei ddweud wrthym ni? ........ 18
6.3 Pa wybodaeth a ddeilliodd o drafodaethau'r panel? ........ 18
6.4 Awgrymiadau'r Panel: Diogelwch yn y cartref ........ 20
**7 MATERION DIOGELWCH EHANGACH ........ 20**
7.1 Beth wnaeth yr wybodaeth am farwolaethau/digwyddiadau unigol ei ddweud wrthym ni? ........ 20
7.2 Beth wnaeth y llenyddiaeth ei ddweud wrthym ni? ........ 20
7.3 Pa wybodaeth a ddeilliodd o drafodaethau'r panel? ........ 21
7.4 Awgrymiadau'r Panel: Materion diogelwch ehangach ........ 22
**8 CYFLEOEDD ATAL ........ 22**
**9 YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID ........ 23**

# 1 Crynodeb

Tra bo marwolaethau mewn tân yn brin yng Nghymru, mae canlyniaau unrhyw farwolaeth plentyn yn sylweddol. Gwnaeth yr adolygiad hwn ystyried gwybodaeth am farwolaethau plant (0-17 oed) mewn tân yng Nghymru ochr yn ochr ag adolygiad llenyddiaeth a thrafodaeth gan banel thematig.

Daeth tair thema i'r amlwg; diogelwch personol, diogelwch yn y cartref a materion diogelwch ehangach. Trwy drafodaethau o gwmpas y themâu hyn nodwyd cyfleoedd i atal marwolaethau plant oherwydd tân. Roedd y rhain yn cynnwys darparu negeseuon clir a chyson i'r cyhoedd, ffyrdd i rannu'r negeseuon hyn a'r negeseuon sy'n bodoli eisoes yn effeithiol, ymchwilio i weithgareddau atal sy'n bodoli eisoes a dechrau trafodaethau ynghylch deddfwriaeth.

## Cyfleoedd atal

Negeseuon clir a chyson i'r cyhoedd:

- pwysigrwydd bod gan **bob** cartref larwm mwg sy'n gweithio
- pwysigrwydd gwybod beth i'w wneud yn achos tân, *'ewch allan, arhoswch allan, galwch 999'*
- pwysigrwydd bod â chynllun dianc a dilyn cyngor diogelwch yn y cartref
- peryglon coginio dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau
- goruchwylio plant yn briodol e.e. angen gofalwr sobr ar bob plentyn.

Ffyrdd o rannu'r negeseuon hyn a negeseuon sy'n bodoli eisoes:

Gellid ymchwilio i'r rhain gan y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant ar y cyd â Llywodraeth Cymru a chydweithwyr Gwella Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i benderfynu ar fecanweithiau effeithiol ar gyfer rhannu'r negeseuon hyn.

Gweithgareddau atal sy'n bodoli eisoes:

- Tîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant i ymchwilio i'r posibilrwydd o ychwanegu teuluoedd â phlant dan 5 oed i fod yn gymwys ar gyfer gwiriad diogelwch y cartref am ddim
- Tîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant i ymchwilio i'r llwybrau gweithredu'n ataliol lle bo bygythiad o gynnau tân yn fwriadol.

Deddfwriaeth:

- Tîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant i ysgogi trafodaethau ynghylch deddfwriaeth yn ymwneud â larymau mwg.

Mae tîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant wedi dechrau cyfarfod gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r cyfleoedd atal a nodwyd.

# 2 Cyd-destun

Nod y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant yw nodi a disgrifio patrymau ac achosion marwolaethau plant, yn cynnwys unrhyw dueddiadau, a nodi cyfleoedd i atal marwolaethau plant yng Nghymru. Dewisir pynciau ar sail nifer y marwolaethau, anghenion polisi cyfredol, trafodaethau gyda Grŵp Llywio'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant ac, yn bwysicaf oll, trwy nodi ac adnabod meysydd lle bo cyfleoedd i leihau'r risg o farwolaethau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Hysbyswyd am 12,000 o danau ar draws Cymru yn 2015-16, a arweiniodd at 245 o farwolaethau neu anafiadau a oedd angen triniaeth yn yr ysbyty.[1] Lle bo marwolaethau neu anafiadau difrifol yn digwydd mae'r effeithiau'n sylweddol, ac yn aml mae tanau sy'n achosi anafiadau o'r fath yn rhai y gellid eu hatal. Yn ychwanegol, mae anghydraddoldeb cynhenid hysbys o ran anafiadau'n gysylltiedig â thân, gyda phlant sy'n byw yn ardaloedd mwyaf amddifadus Cymru fwy na dwywaith fwy tebygol o fynd i adran damweiniau a brys gydag anafiadau llosg o'u cymharu gyda'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf amddifadus.[2] Mae deall ac ymdrin â'r anghydraddoldebau hyn ochr yn ochr â lleihau marwolaethau plant oherwydd tân ar draws Cymru yn hanfodol bwysig.

Nod yr adolygiad oedd adnabod a nodi ffactorau risg y gellir eu haddasu a chyfleoedd i atal marwolaethau plant mewn tân. Gwnaed hyn trwy adolygu'r llenyddiaeth ynghylch y risgiau a'r ymyriadau i leihau marwolaethau plant mewn tân, ystyried y digwyddiadau a ddigwyddodd mewn cyfnod pum mlynedd yng Nghymru a dod â phanel o arbenigwyr ynghyd i drafod yr achosion a'r llenyddiaeth. Gwnaeth y triongli tystiolaeth hwn ganiatáu nodi'r ffactorau y gellid eu haddasu a'r meysydd polisi lle bo cyfle i leihau'r risg cyffredinol o farwolaeth mewn tân, dylanwadu i leihau anghydraddoldebau a deall yn well sut i gyfathrebu gyda'r rhai sy'n wynebu'r risg mwyaf.

[1] Gwasanaeth Tân ac Achub, 2016
[2] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016

# 3 Methodoleg

## 3.1 Protocol

Datblygwyd protocol i ddarparu canllawiau penodol ar gyfer cynllunio a chynnal yr adolygiad thematig marwolaethau plant mewn tân. Hysbyswyd y protocol gan weithdrefnau adolygiad thematig y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant, a gynhyrchwyd ym Mai 2016, a nodi diffiniad achos, cwmpas, llinell amser, cyllideb ac elfennau sicrwydd ansawdd yr adolygiad. Mae'r ddwy ddogfen ar gael gan dîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant ar gais i'r perwyl hynny.

## 3.2 Ffynonellau data ar gyfer triongli tystiolaeth

### 3.2.1 Marwolaethau unigol

Canolbwyntiodd yr adolygiad ar farwolaethau mewn tân. Nid oedd yn cynnwys llosgiadau oherwydd sgaldio, pelydriad na ffrithiant. Cafodd pob achos marwolaeth o ganlyniad uniongyrchol i dân, er enghraifft, anadlu mwg, eu cynnwys. Tra nad oedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar farwolaethau mewn tân o ganlyniadau i ddynladdiad neu hunanladdiad, cafodd y rhain eu cynnwys hefyd.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys yr holl farwolaethau mewn tân (yn bodloni'r diffiniad a amlinellwyd uchod) ymhlith plant 0–17 oed, lle'r oedd y farwolaeth wedi digwydd rhwng 1 Ionawr 2010 a 31 Rhagfyr 2014, a lle bo'r digwyddiad a arweiniodd at farwolaeth wedi digwydd yng Nghymru a/neu lle bo'r plentyn yn byw yng Nghymru yn arferol ar adeg y farwolaeth. Nodwyd naw marwolaeth plentyn o bump achos o dân.

Defnyddiwyd nifer o ffynonellau gwybodaeth i gasglu rhagor o wybodaeth am y marwolaethau hyn, yn cynnwys cofrestru'r farwolaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, adroddiadau a gyflwynwyd i'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant, cofnodion gan wasanaethau'n ymwneud ag adolygu marwolaethau, gwybodaeth gan benaethiaid diogelu, adroddiadau a barn crwneriaid, gwybodaeth gan y gwasanaethau brys ac adroddiadau'r cyfryngau.

### 3.2.2 Adolygiad llenyddiaeth

Nod yr adolygiad llenyddiaeth oedd asesu'r dystiolaeth a gyhoeddwyd am risgiau marwolaethau mewn tân ac effeithiolrwydd ymyriadau i leihau marwolaethau plant mewn tân. Cwestiynau'r adolygiad llenyddiaeth oedd:

a) Beth ydym ni'n ei wybod am y ffactorau risg a'r ffactorau amddiffyn sy'n gysylltiedig â marwolaethau plant yn gysylltiedig â than?
b) Pa ymyriadau a allai fod yn effeithiol wrth ymdrin â ffactorau risg, cynyddu ffactorau amddiffyn ac atal marwolaethau plant mewn tân?

Dilynodd yr adolygiad llenyddiaeth ddull tryloyw, y gellir ei ailadrodd, fel a nodir yn y protocol adolygiad llenyddiaeth, sydd ar gael gan Wasanaeth Tystiolaeth Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### 3.2.3 Cyfarfodydd y Panel Thematig

Roedd y Panel yn cynnwys tîm craidd adolygiad thematig, aelod o Wasanaeth Tystiolaeth yr Arsyllfa, arbenigwyr yn y maes a chadeirydd annibynnol. Roedd yr arbenigwyr yn y maes yn dod o gefndiroedd meddygol a diogelwch tân.

**Tabl 1: Panel yr adolygiad thematig marwolaethau plant mewn tân**

| **Enw** | **Rôl proffesiynol** | **Rôl fel aelod o'r Panel** |
|---|---|---|
| Catherine Floyd | Cofrestrydd Arbenigol Iechyd y Cyhoedd | Cadeirydd annibynnol |
| Dr Rosalind Reilly | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd | Arweinydd Iechyd y Cyhoedd y Tîm Adolygu Marwolaethau Plant, aelod o'r tîm craidd |
| Bev Heatman | Rheolwr y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant | Rheolwr yr adolygiad, aelod o'r tîm craidd |
| Dr Lorna Price | Pediatregydd Cymunedol Meddyg Dynodedig Diogelu | Arweinydd Pediatreg Adolygu Marwolaethau Plant, aelod o'r tîm craidd |
| Dr Jo McCarthy | Cofrestrydd Arbenigol Iechyd y Cyhoedd | Arweinydd yr adolygiad, aelod o'r tîm craidd |
| Dr Chukwudi Okolie | Ymchwilydd y Gwasanaeth Tystiolaeth | Arweinydd yr adolygiad llenyddiaeth |
| Karen Jones | Pennaeth Diogelwch Cymunedol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Arbenigwr yn y maes |
| Dr Joanne Bowes | Anesthetydd ymgynghorol | Arbenigwr yn y maes |
| Yr Athro Tom Potokar | Llawfeddyg Cosmetig Ymgynghorol a Chyfarwyddwr rhwydwaith Interburns | Arbenigwr yn y maes |

Cynhaliwyd dau gyfarfod y panel fel rhan o'r adolygiad thematig. Yn y cyfarfod cyntaf cyflwynwyd gwybodaeth ddemograffig am y plant a fu farw, trafodwyd pob achos yn fanwl a rhannwyd canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth gydag aelodau'r panel. Yn ystod ail gyfarfod y panel cynhaliwyd rhagor o drafodaethau a arweiniodd at ddatblygu cyfleoedd atal.

Gwnaeth holl aelodau'r panel lofnodi cytundebau cyfrinachedd a datganiadau gwrthdaro buddiannau cyn y cyfarfodydd panel.

## 3.3 Ffurfio cyfleoedd atal

Cafodd yr wybodaeth a drafodwyd, a ddehonglwyd ac a gytunwyd yn y panel ei gasglu a'i gofnodi gan dîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant. Trafododd aelodau'r panel gyfleoedd potensial ar gyfer atal y gellid eu hymchwilio er mwyn lleihau marwolaethau plant mewn tân yng Nghymru. Casglwyd y themâu a oedd yn dod i'r amlwg rhwng cyfarfodydd y panel fel y gellid eu cyflwyno i'r panel eto i'w trafod yn fanylach. Yn dilyn ail gyfarfod y panel cofnodwyd unrhyw faterion y tynnwyd sylw atynt gan y panel, ac arweiniodd y rhain at ddatblygu cyfleoedd atal gan y tîm craidd. Gwnaeth yr arbenigwyr yn eu maes gytuno ar y rhestr derfynol o gyfleoedd atal.

## 3.4 Adroddiadau, ymgysylltu a datblygu canfyddiadau'r adolygiad

Datblygwyd adroddiad yr adolygiad thematig marwolaethau plant mewn tân gan arweinydd yr adolygiad a'r tîm craidd gyda chyfraniadau gan yr arweinydd tystiolaeth.

Bydd y tîm craidd yn parhau i ymgysylltu gydag arweinyddion perthnasol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod yr adroddiad yn adlewyrchu gweithgarwch sefydliadol cyfredol yn briodol. Hefyd bydd ymgysylltu'n digwydd rhwng adeg y cyfleoedd atal yn dod i'r amlwg a chytuno ar yr adroddiad terfynol.

Bydd y tîm craidd yn ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys arweinyddion polisi yn Llywodraeth Cymru a chydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru i benderfynu sut i ddatblygu'r cyfleoedd atal hyn.

# 4 Canfyddiadau

## 4.1 Beth wnaeth yr wybodaeth am farwolaethau/digwyddiadau unigol ei ddweud wrthym ni?

Nodwyd naw marwolaeth mewn tân yng Nghymru ymhlith plant 0-17 oed rhwng 1 Ionawr 2010 a 31 Rhagfyr 2014. Digwyddodd y marwolaethau mewn pum digwyddiad ar wahân; dau dân wedi'u cynnau'n fwriadol a thri tân damweiniol. Nid oedd unrhyw batrwm lleoliad i'r tanau hyn, a ddigwyddodd ar draws Cymru.

### 4.1.1 Oedran a rhyw

- Nid oedd unrhyw batrwm oedran na rhyw clir yn y marwolaethau mewn tân.

### 4.1.2 Preswylfod

- Digwyddodd yr holl danau mewn preswylfod preifat neu wedi'i rentu
- Roedd saith o blant yn eu cartrefi eu hunain ar adeg y tân.

### 4.1.3 Amser y dydd a thymor y flwyddyn

- Digwyddodd y rhan fwyaf o'r achosion yn ystod y nos neu yn oriau mân y bore
- Nid oedd unrhyw batrwm tymor y flwyddyn o ran y tanau.

### 4.1.4 Systemau rhybuddio

- Digwyddodd pedwar o'r pum achos mewn cartrefi heb larwm mwg gweithiol
- Nid oedd gan unrhyw un o'r cartrefi unrhyw ddulliau rhybuddio am dân nac addasiadau diogelwch ychwanegol.

### 4.1.5 Agweddau cyffredin mewn tanau damweiniol

Cafwyd cyfanswm o dri tân damweiniol, a arweiniodd at farwolaeth pedwar plentyn.

- Gwnaeth y rhan fwyaf o danau damweiniol ddechrau yn ardal y gegin
- Digwyddodd pob un pan oedd y dioddefwyr neu'r darparwyr gofal yn cysgu
- Roedd ymgais i ddianc ymhob achos.

### 4.1.6 Agweddau cyffredin mewn tanau wedi eu cynnau'n fwriadol

Cafwyd cyfanswm o ddau dân wedi'u cynnau'n fwriadol, a arweiniodd at farwolaeth pump o blant.

- Digwyddodd y ddau dân yn y nos
- Roedd ymgais i ddianc o'r ddau dân
- Roedd y dioddefwyr i fyny'r grisiau a'r tân i lawr grisiau yn y ddau achos.

## 4.2 Beth wnaeth y llenyddiaeth ei ddweud wrthym ni?

Rhannwyd y chwiliad llenyddiaeth i edrych ar ffactorau risg ac ymyriadau. Cewch gopi o'r adolygiad llawn gan Wasanaeth Tystiolaeth yr Arsyllfa ar gais i'r perwyl hynny.

### 4.2.1 Ffactorau risg

Nodwyd 410 o astudiaethau ar y ffactorau risg yn gyntaf. Ar ôl sgrinio a defnyddio'r meini prawf cymhwysedd, adolygwyd 16 astudiaeth yn llawn. Canfuwyd bod prinder tystiolaeth ymchwil ansawdd da ynghylch ffactorau risg marwolaethau mewn tân. Roedd y cyfan yn astudiaethau arsylwi, gydag wyth o'r 16 o'r Unol Daleithiau. Dengys y dystiolaeth y gellir gwahanu'r ffactorau risg yn rhai demograffig, ymddygiadol ac amgylcheddol.

## Ffactorau risg demograffig

- Cartrefi gyda nifer uchel o drigolion dan 15 oed – mae plant dan bump oed a gwrywod dros chwech oed yn wynebu risg penodol
- Byd-eang, plant o grwpiau lleiafrif ethnig
- Cartrefi incwm isel
- Byw mewn ardal wledig
- Teuluoedd un rhiant
- Cyrhaeddiad addysgol isel y fam ac oedran ifanc y fam (dan 20 oed)
- Nam neu anabledd corfforol neu feddyliol
- Gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â'r teulu.

## Ffactorau risg ymddygiadol

- Yr oedolyn sy'n goruchwylio yn defnyddio alcohol
- Ysmygu
- Chwarae â thân
- Diffyg cynllun dianc rhag tân
- Diffyg goruchwyliaeth.

## Ffactorau risg amgylcheddol

- Diffyg larwm mwg gweithredol
- Diffyg neu ddim mynediad at ffôn
- Cartrefi symudol neu gartrefi heb ddim/fawr ddim nodweddion diogelwch
- Dillad llac a dillad nad ydynt yn rhai gwrth-dân.

Mae'r ffactorau risg yn rhyngweithio'n aml, er enghraifft, gall statws economaidd a chymdeithasol, math o gartref a diffyg nodweddion diogelwch yn y cartref fod yn faterion cysylltiedig. Nid yw'r risg wedi ei gyfyngu i blant, gyda llawer o'r ffactorau a grybwyllwyd yn risgiau i oedolion hefyd, ac oedran a rhyw yw'r prif ragfynegiadau marwolaeth yn gysylltiedig â thân.

### 4.2.2 Ymyriadau effeithiol

Nodwyd 812 o astudiaethau a dogfennau’n canolbwyntio ar ymyriadau i atal neu gyfyngu marwolaethau oherwydd tân. Yn dilyn sgrinio a defnyddio’r meini prawf cymhwysedd, adolygwyd 40 yn llawn. Roedd 17 yn astudiaethau ymchwil, yn cynnwys un treial rheoledig ar hap a dau adolygiad systemataidd, ac roedd 23 yn adroddiadau. Daeth naw o’r 17 astudiaeth ymchwil o’r Unol Daleithiau a phump o’r Deyrnas Unedig, un o Awstralia, un o wlad Groeg ac un o Ganada. Dengys y dystiolaeth y gellir gwahanu ymyriadau yn rhai addysgol, amgylcheddol a deddfwriaethol.

**Ymyriadau addysgol**

- Mae tystiolaeth bod addysg un i un ynghylch diogelwch yn y cartref yn effeithiol wrth gynyddu cyfran y teuluoedd gyda larymau mwg sy’n gweithio, gwarchodydd tân a chynllun dianc rhag tân. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod addysg diogelwch yn y cartref yn aneffeithiol o ran cynyddu storio matsys yn ddiogel neu berchen ar ddiffoddydd tân
- Mae’r dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd addysg yn yr ysgol wrth wella gwybodaeth plant am atal tân a llosgiadau yn anghyson.

**Ymyriadau amgylcheddol**

- Mae tystiolaeth sy’n awgrymu bod larwm mwg gweithredol mewn cartref yn effeithiol wrth leihau amlder marwolaethau ac anafiadau plant yn gysylltiedig â than, fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am danau a gafodd eu cynnau’n fwriadol neu drwy chwarae â thân
- Mae tystiolaeth sy’n awgrymu bod bipiadau amledd cymysg neu sy’n defnyddio llais yn fwy effeithiol na bipiadau un amledd yn unig wrth ddeffro grwpiau risg penodol.

**Deddfwriaethol**

- Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod deddfau sy’n ei gwneud yn ofynnol i bob cartref gael larwm mwg yn effeithiol wrth hyrwyddo’r defnydd o larymau mwg.

### 4.2.3 Tystiolaeth o adroddiadau Adolygu Marwolaethau Plant

Ystyriwyd 13 o adroddiadau Adolygu Marwolaethau Plant o raglenni mewn gwledydd eraill fel rhan o'r adolygiad tystiolaeth. Ystyriwyd yr argymhellion o'r adroddiadau hyn, ac roeddynt yn cynnwys:

- Gosod a defnyddio larymau mwg gweithredol
- Cyflwyno deddfau yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gartrefi sy'n bodoli eisoes gael larymau mwg wedi'u gosod ynddynt
- Addysg diogelwch tân i deuluoedd agored i niwed
- Datblygu cynlluniau dianc rhag tân mewn argyfwng
- Goruchwylio plant ifanc yn briodol
- Atal cael gafael ar ddeunyddiau dechrau tân
- Gwirio offer trydanol a gwifrau trydanol yn rheolaidd.

### 4.2.4 Tystiolaeth o adroddiadau eraill

Ystyriwyd 10 adroddiad ychwanegol hefyd. Roedd yr argymhellion o'r adroddiadau hyn yn adlewyrchu rhai'r adroddiadau Adolygu Marwolaethau Plant ac roeddynt yn cynnwys yr argymhellion ychwanegol isod:

- Polisi dim ysmygu yn y cartref
- Defnyddio ffabrig atal tân ar gyfer dodrefn, dillad gwely a dillad nos plant
- Gosod system chwistrellu mewn cartrefi
- Defnyddio taniwr sigarets gyda nodweddion sy'n eu gwneud yn anodd i blant eu defnyddio
- Defnyddio peiriant ffrïo trydanol gyda rheolydd thermostatig ar gyfer ffrïo sglodion.

### 4.2.5 Casgliadau

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod tystiolaeth ansawdd da i gefnogi defnyddio ymyriadau addysgol i gynyddu defnyddio larymau mwg a chynlluniau dianc rhag tân, ond bod addysg yn aneffeithiol o ran cynyddu storio matsys yn ddiogel neu berchen ar ddiffoddydd tân. Yn gyffredinol dangosodd y dystiolaeth effeithiolrwydd larymau mwg yn atal anafiadau a marwolaethau oherwydd tân, oni bai bod y tân o ganlyniad i gynnau'r tân yn fwriadol neu chwarae â thân.

Mae tystiolaeth gyfyngedig ar gael ar lefel adolygiad systemataidd a threialon ar hap ynghylch y risgiau a'r ymyriadau i atal marwolaeth

oherwydd tân. Nid ymchwil ffurfiol yw'r unig fath o dystiolaeth i'w hystyried, a gwnaeth adroddiadau Adolygu Marwolaethau Plant a barn arbenigwyr ddarparu gwybodaeth werthfawr i'r adolygiad tystiolaeth hwn.

## 4.3 Pa themâu a ddeilliodd o drafodaethau'r panel?

Amlinellir y pynciau trafod yn y cyfarfod panel cyntaf, lle trafodwyd pob achos ac y cyflwynwyd canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth, yn ffigur 1.

**Ffigur 1: Pynciau trafod yng nghyfarfod cyntaf y panel**




Daeth tair thema i'r amlwg, sef:

1) Diogelwch personol
2) Diogelwch yn y cartref
3) Materion diogelwch ehangach

Gofynnwyd i aelodau'r panel ystyried y materion a godwyd yng nghyfarfod cyntaf y panel dan y tair thema hyn a phenderfynu a oedd meysydd penodol y dymunent dynnu sylw atynt yn benodol. Cafodd y rhain eu datblygu ymhellach yn ystod ail gyfarfod y panel a chytunwyd ar y cyfleoedd atal. Mae'r penodau a ganlyn ar ddiogelwch personol, diogelwch

yn y cartref a materion diogelwch ehangach yn crynhoi trafodaethau'r panel ynghylch bob thema.

# 5 Diogelwch personol

Roedd diogelwch personol yn cynnwys materion fel addysg ynghylch beth i'w wneud yn achos tân, cynlluniau wedi eu llunio gan deulu neu unigolion, cymryd cyffuriau neu alcohol, materion goruchwylio ac agweddau eraill a oedd yn effeithio ar risg unigolion o farwolaeth oherwydd tân.

## 5.1 Beth wnaeth yr wybodaeth am farwolaethau/digwyddiadau unigol ei ddweud wrthym ni?

- Roedd achosion lle'r oedd pobl wedi ceisio dychwelyd i adeiladau ar dân
- Roedd achos lle'r oedd aelod o'r teulu wedi ymchwilio i achos y tân cyn ceisio dianc
- Roedd achosion lle'r oedd cyffuriau ac alcohol yn gysylltiedig â gosod tanau'n fwriadol
- Roedd achosion lle'r oedd unigolion yn coginio o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.

## 5.2 Beth wnaeth y llenyddiaeth ei ddweud wrthym ni?

Bod y ffactorau risg o farwolaeth mewn tân yn cynnwys yr oedolyn sy'n goruchwylio yn yfed alcohol, ysmygu, chwarae â thân, diffyg cynllun dianc mewn tân a diffyg goruchwyliaeth.
Mae addysg diogelwch yn y cartref yn effeithiol wrth gynyddu cyfran y bobl sy'n gwneud newidiadau diogelwch yn y cartref, megis penderfynu ar lwybr dianc a gosod larwm mwg sy'n gweithio. Fodd bynnag, mae tystiolaeth sy'n awgrymu bod addysg diogelwch yn aneffeithiol o ran cynyddu storio matsys yn ddiogel neu berchen ar ddiffoddydd tân. Mae'r dystiolaeth ynghylch addysg yn yr ysgol i wella gwybodaeth plant am atal tanau a llosgiadau, a'u hymateb mewn tân, yn anghyson.

## 5.3 Pa wybodaeth a ddeilliodd o drafodaethau'r panel?

### 5.3.1 Gwybodaeth beth i'w wneud mewn tân

Cydnabu'r panel nad yw pobl yn gwybod sut i ymateb mewn tân mewn llawer o achosion, ac mewn panig yn aml nid yw'r gweithredoedd y rhai y byddai'r gwasanaeth tân yn eu hargymell. Tynnwyd sylw at yr angen am neges gyson, syml a hawdd i'w chofio yn ystod tân. Y neges a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yw 'ewch allan, arhoswch allan a galwch 999' ac roedd y panel yn cydnabod ei bod yn bwysig cynyddu ymwybyddiaeth am hyn a chadw'r neges yr un fath i osgoi dryswch.

### 5.3.2 Cyffuriau ac alcohol

Roedd defnyddio cyffuriau ac alcohol yn nodwedd yn y llenyddiaeth ac yn yr achosion a adolygwyd, yn enwedig o ran gallu y rhai dan ddylanwad i oruchwylio coginio neu blant. Yn ychwanegol edrychwyd ar a thrafodwyd effaith posibl alcohol yn y tanau a gafodd eu cynnau yn fwriadol. Teimlwyd mai'r neges ddiogelwch gryfaf ynghylch atal marwolaeth mewn tân yng nghyswllt defnyddio cyffuriau ac alcohol oedd yr un yn ymwneud â choginio, a phwysigrwydd peidio â choginio o dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol.

### 5.3.3 Goruchwyliaeth

Trafodwyd pwysigrwydd goruchwyliaeth ddigonol i blant ifanc. Tra nad oedd diffyg goruchwyliaeth yn achos uniongyrchol unrhyw un o'r marwolaethau mewn tân a adolygwyd, cytunwyd ar yr angen am oruchwyliaeth ddigonol ac i bob plentyn fod â darparydd gofal sobr i atal anafiadau.

## 5.4 Awgrymiadau'r Panel: Diogelwch personol

- Cydnabu'r panel bwysigrwydd ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch beth i'w wneud mewn tân, a'r angen am un neges gyson: 'ewch allan, arhoswch allan, galwch 999'
- Awgrymodd y panel ddefnyddio un daflen gydnabyddedig yn gyson drwy Gymru i rannu gwybodaeth am ddiogelwch tân, a bod yr wybodaeth yn cael ei diweddaru i gynnwys gwybodaeth am beidio â choginio o dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol.

# 6 Diogelwch yn y cartref

## 6.1 Beth wnaeth yr wybodaeth am farwolaethau/digwyddiadau unigol ei ddweud wrthym ni?

- Nid oedd larwm mwg yn y cartref yn y rhan fwyaf o achosion
- Nid oedd nodweddion diogelwch tân ychwanegol yn y cartrefi, megis systemau chwistrellu neu ddrysau tân, ymhob achos
- Ymhob achos o danau a ddechreuodd yn ddamweiniol dechreuodd y tân yn y gegin
- Roedd problemau ynghylch dianc o'r adeilad ymhob achos.

## 6.2 Beth wnaeth y llenyddiaeth ei ddweud wrthym ni?

Nodir diffyg larwm mwg gweithredol fel ffactor risg amgylcheddol marwolaethau mewn tân. Yn ychwanegol mae tystiolaeth bod presenoldeb larwm mwg yn effeithiol yn lleihau amlder marwolaethau ac anafiadau yn gysylltiedig â thân mewn plant, er nad yw'r dystiolaeth hon yn cynnwys tanau a gafodd eu cynnau'n fwriadol. Mae tystiolaeth ynghylch y mathau o larymau mwg sydd fwyaf effeithiol, gyda larwm llais a bipiadau amledd cymysg yn fwy effeithiol wrth ddeffro y rhai sy'n cysgu'n drwm, oedolion dan ddylanwad sylweddau, plant a'r rhai â nam ar eu clyw.

Mae tystiolaeth bod cyflwyno deddfau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gartrefi sy'n bodoli eisoes gael larymau mwg yn effeithiol wrth hyrwyddo defnydd larymau mwg.

## 6.3 Pa wybodaeth a ddeilliodd o drafodaethau'r panel?

### 6.3.1 Larymau mwg a mecanweithiau ychwanegol diogelwch yn y cartref

Gwnaeth trafodaethau'r panel ganolbwyntio ar y nodweddion diogelwch pwysicaf mewn cartrefi yng nghyd-destun risg tân. Fel yn y dystiolaeth o'r llenyddiaeth a'r achosion a gyflwynwyd, tynnwyd sylw at bwysigrwydd larwm mwg gweithiol fel yr un neges bwysicaf o ran diogelwch tân. Cytunodd holl aelodau'r panel bod angen i larymau mwg fod yn orfodol, trwy ddeddfwriaeth, yn yr holl eiddo i'w rhentu. Trafodwyd a ddylai'r panel eiriol dros fath arbennig o larwm, megis y rhai â'r dystiolaeth orau o ran deffro'r rhai sy'n cysgu'n drwm ac unigolion dan ddylanwad sylweddau.

Penderfynwyd na fyddai hyn yn briodol, gan mai'r neges bwysicaf yw cael larwm sy'n gweithio ac mae tystiolaeth dda ynghylch effeithlonrwydd larymau mwg safonol.

Trafodwyd nodweddion diogelwch y cartref ychwanegol hefyd, megis systemau chwistrellu a drysau tân. Mae tystiolaeth yn bodoli ynghylch systemau chwistrellu, ac mae'n ofynnol i gartrefi newydd gynnwys system o'r fath, fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth ynghylch a fyddai'r systemau hyn wedi effeithio ar ganlyniadau'r achosion a adolygwyd, na phwyslais ar y rhain yn y llenyddiaeth. Teimlwyd, am y rhesymau hyn, ac i sicrhau nad oedd y brif neges am larymau mwg yn cael ei glastwreiddio, na fyddai nodweddion diogelwch ychwanegol yn y cartref yn fater i ganolbwyntio arno.

### 6.3.2 Offer trydanol

Trafodwyd offer trydanol a chofrestru'r rhain, fel y gellid eu galw yn ôl yn hawdd pe bai gweithgynhyrchwyr yn adnabod nam, yn fanwl. Fodd bynnag, heb dystiolaeth gadarn i hysbysu cyfle atal, ni theimlwyd bod eiriol dros bawb yn cofrestru eu nwyddau trydanol yn bwynt y gallai'r panel ei ddatblygu.

### 6.3.3 Lleoliad tân a llwybrau dianc

Tynnwyd sylw at y gegin fel ardal risg tân uchel. Yn gysylltiedig â'r trafodaethau hyn roedd cael llwybr dianc sy'n osgoi ardal y gegin, yn ogystal â llwybr wrth gefn os nad oedd modd defnyddio'r grisiau. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau nad yw goriadau'n cael eu gadael yn y gegin, a thrafodwyd arferion diogel wrth fynd i'r gwely, yn cynnwys cau drws y gegin, fel elfen bwysig diogelwch yn y cartref i'w hyrwyddo.

### 6.3.4 Cynllun gosod y cartref

Codwyd y mater o annibendod, a phwysigrwydd cadw allanfeydd yn glir. Fodd bynnag, ni theimlwyd bod digon o dystiolaeth na gwybodaeth er mwyn tynnu sylw at y maes hwn. Trafodwyd nifer yr achosion a ddigwyddodd mewn tai teras, a'r effaith y gallai hyn ei gael ar lwybrau dianc hefyd. Tra'i bod yn ymddangos bod cysylltiadau rhwng tai ag allanfeydd cyfyngedig a risg tân, o'r achosion a adolygwyd gwelwyd nad yw cynllun gosod cartref yn rhywbeth y gellir ei addasu'n hawdd. Felly penderfynwyd nad oedd cynllun gosod y cartref yn addas fel cyfle atal.

## 6.4 Awgrymiadau'r Panel: Diogelwch yn y cartref

- Ar sail triongli'r dystiolaeth, teimlai'r panel y dylid cael larwm mwg gweithiol ym mhob cartref a chydnabuwyd yr anawsterau'n gysylltiedig â hyn. O gofio bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar blant, awgrymodd y panel ymchwilio i'r cyfle i ehangu'r rhestr 'grwpiau bregus' sy'n gymwys am wiriadau diogelwch yn y cartref am ddim gan y Gwasanaeth Tân ac Achub i gynnwys merched beichiog a theuluoedd gyda phlant dan bump oed. Byddai hyn yn agor y gwasanaeth i gael gwiriad diogelwch y cartref am ddim a darparu cyfleoedd am addysg ynghylch diogelwch y cartref a darparu larymau mwg am ddim
- Cydnabu'r panel fod deddfwriaeth yn arf pwysig ar gyfer sicrhau gosod larymau mwg mewn cartrefi rhent
- Cydnabu'r panel bwysigrwydd dilyn cyngor diogelwch yn y cartref, megis sicrhau diogelwch offer trydanol, dilyn arferion diogel wrth fynd i'r gwely a gadael goriadau lle gellir cael gafael arnynt yn hawdd os oes angen. Croesawodd y panel gynnwys y pwyntiau hyn ar daflen canllawiau diogelwch cenedlaethol gan eiriol cyfeirio'n benodol at hyn mewn deunyddiau ychwanegol (megis Naw Mis a Mwy).

# 7 Materion diogelwch ehangach

## 7.1 Beth wnaeth yr wybodaeth am farwolaethau/digwyddiadau unigol ei ddweud wrthym ni?

- Yn y ddau achos o dân a gafodd ei gynnau'n fwriadol roedd bygythiadau i gynnau tân yn fwriadol yn flaenorol.

## 7.2 Beth wnaeth y llenyddiaeth ei ddweud wrthym ni?

### 7.2.1 Ffactorau risg

Daeth materion ehangach i'r amlwg yn ystod cyfarfodydd y panel, ac nid oedd y chwiliad llenyddiaeth wedi canolbwyntio'n benodol ar broblemau cefndir y rhai'n gyfrifol am gynnau tân yn fwriadol na'r amser a gymrwyd i

gyrraedd ysbyty yn dilyn tân. Dangosodd tystiolaeth bod gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â'r teulu a defnydd alcohol yn ffactorau risg o ran marwolaethau plant mewn tân, er bod y dystiolaeth hon wedi ei seilio ar ffactorau risg y teulu a effeithiwyd ac nid y cyflawnwr.

7.2.2 Ymyriadau

Mewn ymateb i drafodaethau yng nghyfarfod cyntaf y panel, cynhaliwyd adolygiad tystiolaeth ychwanegol yn canolbwyntio ar ddefnyddio hydrocsocobalamin ar gyfer anadlu mwg gan y gwasanaeth tystiolaeth rhwng y ddau gyfarfod. Fitamin B12 yw hydroxocsobalamin a ddefnyddir i drin gwenwyno gan syanid. Cafnuwyd bod y dystiolaeth o effeithiolrwydd hydrocsocobalamin ar gyfer gwenyn syanid yn dilyn anadlu mwg yn gyfyngedig.

## 7.3 Pa wybodaeth a ddeilliodd o drafodaethau'r panel?

7.3.1 Llwybrau atgyfeirio tanau bwriadol

Tra'n trafod yr achosion dynladdiad, daeth neges glir am yr angen am lwybr atgyfeirio i wasanaethau lleihau cynnau tân yn fwriadol i'w amlwg. Codwyd yr angen i unrhyw weithwyr iechyd proffesiynol wybod am unrhyw lwybr o'r fath, yn cynnwys gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, a chydnabu'r panel y byddai'n rhaid gwneud gwaith ymchwil gefndirol o ran a yw llwybr atgyfeirio o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd.

7.3.2 Hydrocsocobalamin

Mae hydrocsocobalamin, neu fitamin B12, wedi ei adnabod fel gwrthgyffur i wenwyn syanid. Yn dilyn dod i gysylltiad â mwg gall y lefel syanid yn y gwaed godi, ac mae peth tystiolaeth i awgrymu y gall hydrcsocobalamin leihau'r risg o farwolaeth yn dilyn anadlu mwg. Nid oedd hydrocsocobalamin yn rhywbeth a ddaeth i'r amlwg yn ystod y chwiliadau tystiolaeth dechreuol, ond nodwyd ei ddefnydd fel ystyriaeth bwysig gan weithiwr iechyd proffesiynol ar y panel a chynhaliwyd adolygiad tystiolaeth ddilynol o ganlyniad i hyn. Er nad yw hwn yn ymyriad ar lefel y boblogaeth, cytunodd y panel fod hwn yn faes pwysig ar gyfer ymchwil cenedlaethol yn y dyfodol, a mynegwyd gobaith bod cyrff cenedlaethol sy'n gwneud penderfyniadau ar ddefnyddio'r feddyginiaeth hon yn gwneud hynny ar sail sylfaen dystiolaeth gadarn.

7.3.3 Yr agenda atal anafiadau ehangach

Tra bo'r trafodaethau'n canolbwyntio'n benodol ar farwolaethau yn gysylltiedig â thân ac ymyriadau i leihau'r rhain, tynnwyd sylw at yr agenda atal anafiadau ehangach hefyd. Roedd llawer o'r dulliau ar gyfer rhannu cyngor ar ddiogelwch tân, fel trwy daflenni a gynhyrchir gan y llywodraeth, ymgyrchoedd diogelwch cenedlaethol a gweithwyr iechyd proffesiynol, yn golygu bod cyngor yn cael ei roi ochr yn ochr â gwybodaeth gyffredinol atal anafiadau. Barn y panel oedd bod angen codi proffil atal anafiadau, yn enwedig diogelwch ac atal anafiadau plant.

## 7.4 Awgrymiadau'r Panel: Materion diogelwch ehangach

- Mae'r panel yn cydnabod pwysigrwydd llwybr atgyfeirio clir lle bo bygythiad o gynnau tân yn fwriadol, a chynyddu ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol am y ddarpariaeth gan y gwasanaeth tân pan fo bygythiadau o gynnau tân yn fwriadol
- Mae'r panel yn cydnabod yr angen i barhau i ymchwilio i dechnolegau diogelwch tân newydd, yn cynnwys defnyddio hydrocsocobalamin
- Mae'r panel yn cydnabod bod diogelwch plant yn un elfen o agenda atal anafiadau plant ehangach, ac y dylai ymdrechion i roi cyhoeddusrwydd i atal marwolaeth mewn tân ystyried yr agenda ehangach hon hefyd.

# 8 Cyfleoedd atal

Cafodd y themâu a ddeilliodd o drafodaethau'r panel eu hystyried gan dîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant a chynhyrchwyd rhestr o gyfleoedd i atal marwolaethau plant mewn tân, sef:

Negeseuon cyson a chlir i'r cyhoedd:

- pwysigrwydd bod gan **bob** cartref larwm mwg sy'n gweithio
- pwysigrwydd gwybod beth i'w wneud yn achos tân, '*ewch allan, arhoswch allan, galwch 999'*
- pwysigrwydd bod â chynllun dianc a dilyn cyngor diogelwch yn y cartref
- peryglon coginio dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau
- goruchwylio plant yn briodol e.e. angen gofalwr sobr ar bob plentyn.

Ffyrdd i rannu'r negeseuon hyn a'r negeseuon atal sy'n bodoli eisoes:

Gellid ymchwilio i'r rhain trwy i dîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant gydgysylltu gyda Llywodraeth Cymru a chydweithwyr Gwella Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i benderfynu ar fecanweithiau effeithiol i rannu'r negeseuon hyn.

Gweithgareddau atal sy'n bodoli eisoes:

- Tîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant i ymchwilio i'r posibilrwydd o ychwanegu teuluoedd â phlant dan 5 oed i fod yn gymwys ar gyfer gwiriad diogelwch y cartref am ddim
- Tîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant i ymchwilio i'r llwybrau gweithredu'n ataliol lle bo bygythiad o gynnau tân yn fwriadol.

Deddfwriaeth:

- Tîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant i ddechrau trafodaethau ynghylch larymau mwg.

# 9 Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae tîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant wedi dechrau cyfarfod â rhanddeiliaid i ddatblygu'r cyfleoedd atal a nodwyd yn yr adolygiad hwn.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal adolygiad o'r wybodaeth a ddarperir i rieni ar hyn o bryd. Nodwyd cyfleoedd i gysylltu'r negeseuon allweddol o'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant yn narpariaeth gwybodaeth i rieni Iechyd Cyhoeddus Cymru lle bo'n effeithiol a phriodol gwneud hynny. Gobeithir y gellir defnyddio mecanweithiau effeithiol rhannu negeseuon gan y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant yn y dyfodol.

Cynhaliwyd cyfarfod briffio gydag arweinyddion polisi Llywodraeth Leol, gyda chynrychiolwyr o feysydd diogelu plant, atal anafiadau/diogelwch amgylcheddol a gwasanaethau tân ac achub, a'r Uwch Swyddog Meddygol dros iechyd merched a phlant. Cynhaliwyd trafodaethau cadarnhaol am y ffyrdd y gallai teuluoedd agored i niwed fanteisio ar wiriad diogelwch y cartref a gwnaed cysylltiadau â rhanddeiliaid eraill i drafod hyn a chyfleoedd atal eraill a nodwyd.

Mae tîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant yn ehangu'r ymgysylltu i gynnwys rhanddeiliaid ychwanegol a nodwyd yn y trafodaethau dechreuol.